

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 07.11.2017
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cyngorwyr ; Pamela Jones, Danny Davies, Gethin Edwards, Dylan Jones, Eirion Evans, Arwel Nicholas, Elfed Davies, Derick Lock, Cyngorydd Sir, Irfon Jones.
 Ymddiheuriadau:

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
	Cadeirydd yn croesawu'r Cyngorwyr I gyfarfod cyntaf yr hydref a chroeso arbennig i'r Cyngorydd newydd Derick Lock. Hefyd, llongyfarchwyd y Clerc ar ddod yn Dadcu.	
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cafwyd yn gywir; GE & ED	
Materion yn Codi	AN yn holi ynglyn a'r Arolwg a'r £67 oedd ar goll ac ED yn dweud fod y mater wedi ei drafod yn y cyfarfod diwethaf. John Pearce – wedi ateb ynglyn a choed a chloddiau sydd yn gordyfu ac yn dweud iddo gysylltu gyda'r tiffeddiannwyr ond iddo heb gael ymateb eto. Mae amser llenwi'r blychau a halen wedi dod ac mi fyddant yn cael eu llenwi yn fuan. Nid yw'r Cyngor yn cadw hen flychau felly ni fydd modd gosod un arall ar waelod Rhiw Deri ond rhoddir graean yno beth bynnag.	
Gohebiaeth	Apél Teganau'r Sir – Trafodwyd yn UFA Carolyn Smethurst – os daw arian l'r gymuned o Gronfa'r Melinoedd Gwynt, ar beth eu gwerir? Trafodwyd y mater ac awgrymwyd gellir gwneud rhagor o welliannau l'r Neuadd Goffa a'r Cae Chwarae. DL yn dweud I Bencader ac Alltwalis elwa'n fawr o gronfa'r melinoedd cyntaf. Gwrychoedd yn gordyfu – cwyn wedi ei wneud fod tyfiant perthi yn gorchuddio'r palmant godderbyn a'r Ysgol. Clerc I ysgrifennu at y trigolion.	
Cynllunio	Llety Fforddolion – Dim gwrthwynebiad Cilgwyn – Dim gwrthwynebiad	
Elusennau	Yr Wyl Gerdd Dant – addawyd yn gynharach eleni fyddde'r Cyngor yn cyfrannu o leiaf £300 l'r Wyl. Clerc wedi derbyn 2 docyn l'r digwyddiad Arwyn Thomas – wrthi yn cyhoeddu llyfr ac yn gofyn am gymorth ariannol tuag at y gost o £2,000 l'w argraffu. Rhoddir unrhyw elw o werthiant llyfrau l elusen cancr. DL yn cynnig fod y fenter yn deilwng o gefnogaeth. Cytunwyd cyfrannu £300. Marie Curie – cytunwyd cefnogi'r elusen unwaith eto gyda rhodd o £100. McMillan – gan fod eraill yn y pentre yn codi arian l'r elusen,	

	cytunwyd cyfrannu £50 Urdd Gobaith Cymru – cytunwyd danfon £100 l’r mudiad	
Materion Ariannol	Cyflog y Clerc, £130.60 – DD & AN o blaid Adroddiad Banc, £6,019.81	
UFA	<p>AN – Yn cynnig fod y Cyngor yn cefnogi Apél Teganau’r Sir. Trafodwyd y mater a phenderfynnwyd gall unigolion gefnogi’r apél os dymument.</p> <p>PJ yn gofyn l’r Clerc osod llythyr yn y Neuadd ac ar yr hysbysfwrdd.</p> <p>ED – Dim</p> <p>EE – Dim</p> <p>DL – Yn methu cael y Sir I wneud Arolwg Diogelwch ar y Cae Chwarae er I IJ wneud beth y gall. RoSPA yn fodlon gwneud hynny am dâl o £225 +TAW unrhywbryd; ond yn codi £60 am wneud y gwaith ym Mis Mehefin.</p> <p>IJ – Bagiau sbwriel yn cael eu rhwygo gan gŵn. AN yn dweud iddo weld cadno yn ffoi oddi wrth y sbwriel rhywdro.</p> <p>DJ – Beth am linell wen ar gyffordd Nebo?; Clerc I wneud ymholiadau.</p> <p>GE – Dim</p> <p>DD – Arwydd ‘Llanpumsaint’ ger Pantyffordd angen ei drwsio; soniwyd fod Cynllun Gwella Trafnidiaeth Llanpumsaint am osod arwyddion newydd ar Rhiw Cŵpers a gerllaw Pantyffordd. Clerc I wneud ymholiadau.</p>	
Cyfarfod yn gorffen	8.58	

Cafwyd yn gywir :	Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)	(Ysgrifennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: